Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesurau Dros Dro) (Diwygio) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2021**

DYDDIAD **05 Ionawr 2022**

Lesley Griffiths AS/MS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

GAN

Lynne Neagle AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Bydd aelodau'r Senedd am wybod ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Ceisiwyd cytundeb gan Victoria Prentis AS y DU, Gweinidog Gwladol (y Gweinidog Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd), i wneud Offeryn Statudol (OS) o dan y teitl Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesurau Dros Dro) (Coronafeirws) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 fyddai'n gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr.

Bydd yr OS a enwir uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddwyd gan Erthygl 141 o Reoliad Cadw (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill.

Mae'r OS yn diwygio Rheoliad Cadw (UE) 2020/466, a daeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021, i ganiatáu i fesurau dros dro penodol i'r system o reolaethau swyddogol a weithredir o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws barhau tan 1 Gorffennaf 2022.

Mae'r diwygiad yn rhoi'r gallu i awdurdodau cymwys barhau i gyflwyno mesurau dros dro i helpu i atal tarfu ar y gadwyn cyflenwi bwyd, gan sicrhau y gellir parhau i gynnal rheolaethau

swyddogol yn unol â'r canllawiau a'r gweithdrefnau ehangach a roddwyd ar waith i ddelio â phrinder staff o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

Cafodd y rheoliadau eu gosod gerbron y Senedd ar 04 Ionawr 2022 i ddod i rym ar 31 Rhagfyr 2021.